# Dyro Wên

Os wyt ti'n teimlo'n unig,
Cerddwn 'mlaen law yn llaw
Yn wynebu popeth ddaw.
Os wyt ti'n teimlo'n unig, ffrind,
Cerddwn 'mlaen law yn llaw
Yn wynebu popeth ddaw.

Paid â chamu ar y llwybr troellog,
Dof gyda thi ar daith i'th gadw yn ddiogel.

Dyro wên! Mae'r freuddwyd eto'n fyw.
Dyro wên! Rwyt ti'n unigryw.
Fe'th godaf di ac fe'th gynnal ffrind.
Dal sownd, ffrind, dyro wên i mi.

Pan ddaw'r nos a'i dywyllwch dwfn
Byddaf yno gyda thi,
Drwy bob storom yn gofalu.
Os yw'th fflam bron â diffodd,
Llosgi'n llachar gwnaf i ti.
Bydd yn ddewr a bydd yn gry'.

Paid â chamu ar y llwybr troellog,
Dof gyda thi ar daith i'th gadw yn ddiogel.

Dyro wên! Mae'r freuddwyd eto'n fyw.
Dyro wên! Rwyt ti'n unigryw.
Fe'th godaf di ac fe'th gynnal ffrind.
Dal sownd, ffrind, dyro wên i mi.

Pan gawn aeaf hir ac oer,
Ac mae'r haul 'di troi yn lloer.

Byddaf yno'n gwenu arnat
Mi ofalaf fi amdanat.
Pan fydd y glaw yn cwympo,
Pan fydd dy galon yn gwingo,
Cryf a chadarn byddaf fi,
Ffrind am byth i ti.